

Allbynnau Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy 2014

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Julie Boswell

Sefydliad (os yw'n gymwys): Cyfoeth Naturiol Cymru

E-bost: julie.boswell@naturalresourceswales.gov.uk

Rhif ffôn: 029 2046 6087

Eich cyfeiriad: 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:



Cynhelir yr ymgynghoriad hwn rhwng 14 Ebrill 2014 a 4 Gorffennaf 2014. Dylech ddychwelyd y ffurflen hon i:

Tîm Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu ei chwblhau'n electronig a'i hanfon i:

e-bost: stats.inclusion@wales.gsi.gov.uk

Rhagor o Wybodaeth

Bydd eich cyfraniadau yn ein helpu i ddeall yr effaith y gallai'r newidiadau hyn ei chael ar yr unigolion a'r sefydliadau sy'n defnyddio'r ystadegau hyn. Mae hyn yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol sy'n nodi bod gweithgarwch ymgysylltu effeithiol â defnyddwyr yn hanfodol i feithrin ymddiriedaeth mewn ystadegau a sicrhau bod y cyhoedd yn cael y gwerth gorau posibl am arian.

I gael rhagor o wybodaeth gweler y [Ddogfennaeth Ategol](#).

Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno â'r cynnig i roi'r gorau i gyhoeddi'r llyfryn 'Yn Eich Piced' ar Ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy Cymru?

*Noder: caiff y dadansoddiad o'r pum prif ddangosydd ei gynnwys o hyd yn y Datganiad Ystadegol Cyntaf a chaiff pob un o'r dangosyddion eraill eu lanlwytho a byddant ar gael ar StatsCymru.

Ydw Na

Pa effaith y byddai rhoi'r gorau i gyhoeddi'r llyfryn 'Yn Eich Piced' ar Ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy Cymru yn ei chael ar eich gwaith?

Os bydd yr un wybodaeth ar gael o hyd drwy Ddatganiad Ystadegol Cyntaf y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy a thablau data StatsCymru, ni fydd rhoi'r gorau i'w gynhyrchu yn cael fawr ddim effaith ar eich gwaith.

Cwestiynau 2 – A ydych yn cael copi caled o'r llyfryn 'Yn Eich Piced' ar Ddangosyddion Datblygu?

Ydw Na

Pa mor ddefnyddiol yw'r llyfryn hwn i chi?

1

2

3

4

5

Defnyddiol lawn

Cwestiwn 3 - Mae dangosyddion Datblygu Cynaliadwy wedi'u grwpio'n chwe thema gyffredinol. Gweler Atodiad 1 yn y [Ddogfennaeth Ategol](#) i weld y rhestr o ddangosyddion unigol sydd wedi'u cynnwys o dan bob thema.

3.1 Nodwch pa themâu o blith y canlynol rydych wedi'u defnyddio.

Dewiswch fwy nag un eitem os yw hynny'n briodol.

Prif Ddangosyddion

Defnyddio Adnoddau'n Gynaliadwy

Cynnal yr Amgylchedd

- Economi Gynaliadwy
- Cymdeithas Gynaliadwy
- Lles Cymru

Er mwyn ein helpu i ddeall y defnydd a wneir o'n hystadegau a'u perthnasedd, byddem yn croesawu enghreifftiau o'r ffordd y mae'r ystadegau wedi cael eu defnyddio yn eich gwaith.

Rhowch fanylion gan ddefnyddio'r lle a ddarperir isod.

3.2 O fewn thema '**Prif Ddangosyddion**', rhowch fanylion y dangosyddion penodol a ddefnyddiwyd a sut maent yn berthnasol i'ch gwaith.

Nid yw'r prif ddangosyddion yn cael eu hystyried ar wahân i'r is-ddangosyddion. Fel y maent, nid yw'r prif ddangosyddion er eu pen eu hunain wir yn adlewyrchu cynnydd o ran Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru, ond maent yn rhoi amcangyfrif da.

Rydym yn ystyried pob un o'r dangosyddion ar draws pob thema. Mae cyfleu Datblygu Cynaliadwy a dylanwadu arno yn rhan o'n rôl ac mae hyn yn gofyn am ddealltwriaeth integredig o'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran pob un o'r materion hyn a'r cysylltiad rhyngddynt.

Awgrymwn, yn y dyfodol, y bydd angen cysoni dangosyddion Datblygu Cynaliadwy â'r Nodau ym Mil Cenedlaethau'r Dyfodol a sicrhau bod modd eu cyfleu mewn ffordd a all ddangos y cysylltiadau rhyngddynt, a fydd yn dangos cynaliadwyedd.

Rydym yn defnyddio elfen duedd y data wrth lywio polisi a rhoi cyngor arno er mwyn dangos neu gyfleu lle rydym yn symud tuag at Gymru fwy cynaliadwy neu lle nad ydym yn gwneud hynny. Yn y gorffennol rydym wedi defnyddio llawer o'r dangosyddion at ddibenion cynllunio gweithredol. Rydym yn awyddus i ddefnyddio'r Dangosyddion i gynllunio gwaith y mae angen i ni ei wneud ar integreiddio camau gweithredu a chyflawni cynlluniau ar gyfer adnoddau naturiol.

3.3 O fewn thema '**Defnyddio Adnoddau'n Gynaliadwy**', rhowch fanylion y dangosyddion penodol a ddefnyddiwyd a sut maent yn berthnasol i'ch gwaith.

Mae ambell un yn ein sefydliad yn defnyddio data'r dangosyddion unigol o'r ffynhonnell hon. Bydd y rhan fwyaf yn troi at ffynonellau mewnol am ein bod yn darparu'r data sy'n ffurfio'r Dangosyddion canlynol ac mae gennym y sylwadau hyn:

7a a b – gwastraff a gaiff ei greu/gwaredu yn ôl sector yng Nghymru

Mae data gwastraff trefol ar gael yn hawdd a gellir eu cymharu rhwng blynyddoedd. Mae eisoes yn cael ei gyhoeddi gan StatsCymru yn

chwarterol ac yn flynyddol yn yr adroddiad 'Rheoli gwastraff trefol Awdurdod Lleol'.

Nid yw data diwydiant a masnach a data adeiladu a dymchwel ar gael yn hawdd am eu bod yn cael eu casglu drwy arolygon ad hoc. Yn ddiweddar gwnaethom gyhoeddi canlyniadau arolygon newydd sy'n seiliedig ar flwyddyn galendr 2012. Roedd yr arolwg blaenorol o'r sector diwydiant a masnach yn seiliedig ar flwyddyn galendr 2007 ac roedd yr arolwg blaenorol o'r sector adeiladu a dymchwel yn seiliedig ar ddata 2005/06. Mae hyn yn dangos y cyfyngiadau sydd ar y gallu i lunio cyfres amser a diweddarau'r data hyn.

Lle mae methodolegau arolygu yn debyg rhwng blynyddoedd adrodd, cyfyngir ar y gallu i gymharu canlyniadau gan y manwl gywirdeb a sicrhau rhwng yr arolygon. Mae i arolygon lwfans gwallau penodol ac, felly, gellir priodoli gwahaniaethau mewn canlyniadau weithiau i wall samplu yn hytrach na newid gwirioneddol mewn gweithgarwch cynhyrchu neu reoli gwastraff. Mae'n rhaid ystyried hyn wrth gymharu canlyniadau. Ni ellir sicrhau bod y defnyddiwr yn llwyr ymwybodol o'r materion hyn drwy nodi'r prif ganlyniadau ar graff cyfres amser fel gyda'r dangosyddion datblygu cynaliadwy. O ganlyniad, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnwys adran gymharu yn yr adroddiadau newydd ar arolygon Cyfoeth Naturiol Cymru 2012 er mwyn nodi'n glir y materion â chymariaethau a dangos lle mae gwahaniaethau ystadegol bwysig wedi'u nodi. Felly, byddem o blaid dileu'r dangosydd hwn.

8. Gwastraff cartref

Cyhoeddir data gwastraff cartref gan StatsCymru drwy'r adroddiad blynyddol 'Rheoli gwastraff trefol Awdurdod Lleol'. Fodd bynnag, caiff gwastraff cartref ei gofnodi mewn tunelli, nid fesul unigolyn. Byddai'n ddefnyddiol cyhoeddi'r data hyn gan ddefnyddio adroddiad/gwefan StatsCymru pe bai'r dangosydd Datblygu Cynaliadwy yn cael ei ddileu.

3.4 O fewn thema '**Cynnal yr Amgylchedd**', rhowch fanylion y dangosyddion penodol a ddefnyddiwyd a sut maent yn berthnasol i'ch gwaith.

Gwnaethom ddarparu'r data sy'n ffurfio'r Dangosyddion canlynol ac mae gennym y sylwadau hyn:

13 Ansawdd Afonydd

Ni fydd unrhyw ddiweddariadau newydd i'r dangosydd hwn gan fod y rhaglen fonitro a ddarparai'r data wedi dod i ben yn 2010. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn cofnodi ansawdd afonydd gan ddefnyddio dosbarthiadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr fel y'u disgrifir yn Adroddiad Cyflwr yr Amgylchedd, ond dylech nodi nad yw'r ddogfen hon wedi'i diweddarau ers mis Gorffennaf 2012.

15 Rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy

Dyma'r unig le y caiff y data hyn eu cyhoeddi ar hyn o bryd

3.5 O fewn thema ‘**Economi Gynaliadwy**’, rhowch fanylion y dangosyddion penodol a ddefnyddiwyd a sut maent yn berthnasol i'ch gwaith.

Dim sylwadau penodol

3.6 O fewn thema ‘**Cymdeithas Gynaliadwy**’, rhowch fanylion y dangosyddion penodol a ddefnyddiwyd a sut maent yn berthnasol i'ch gwaith.

Dim sylwadau penodol

3.7 O fewn thema ‘**Lles Cymru**’, rhowch fanylion y dangosyddion penodol a ddefnyddiwyd a sut maent yn berthnasol i'ch gwaith.

Mae pob dangosydd yn ddeunydd croesgyfeirio defnyddiol – gall pob mesur ansawdd bywyd fod yn gyd-destun defnyddiol ar gyfer gwybodaeth am ansawdd profiadau ymwelwyr (â'r safleoedd a reolir gennym ein hunain – coetir, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol)

Cwestiwn 4– Rydym yn cyhoeddi'r data ar gyfer pob dangosydd ar StatsCymru. A oeddech yn ymwybodol o hyn?

Oeddwn **Na**

A ydych wedi defnyddio data o StatsCymru o'r blaen?

Ydw **Na**

Cwestiwn 5 - Os oes gennych unrhyw sylwadau cyffredinol yr hoffech eu gwneud ar lyfryn ‘Yn Eich Poced’ ar Ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy nodwch hwy yn y lle gwag isod.

Mae'r llyfryn yn ddogfen gyfeirio barod, ddefnyddiol o'r dangosyddion a'r is-ddangosyddion, yn arbennig lle mae'n dangos y tueddiadau dros amser. Mae'r dull goleuadau traffig hefyd yn ddefnyddiol. Mae cael llyfryn y gallwch ei gario yn eich poced yn ddefnyddiol mewn cyfarfodydd

Cwestiwn 6 – Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi'u hystyried, defnyddiwch y lle gwag isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yn disgrifio'n unigol gynaliadwyedd elfennau penodol. Nid ydynt yn disgrifio cynaliadwyedd Cymru. Nid yw cynyddu allbwn economaidd o reidrwydd yn cyfateb i ddatblygu Cymru yn gynaliadwy. Mae'n rhaid i allbwn economaidd sicrhau manteision cymdeithasol ac amgylcheddol er mwyn dangos datblygu cynaliadwy. Byddai'r fath fanteision yn cynnwys carbon isel, defnyddio adnoddau yn effeithiol, gwella bioamrywiaeth yn ogystal â hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol, cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal. Felly, mae'n bwysig, wrth edrych ar yr ystadegau, nad ydych yn eu hystyried ar eu pen eu hunain ond dylech ystyried y manylion a'r darlun cyfan er mwyn gweld a ydym yn symud tuag at fod yn wlad fwy cynaliadwy mewn gwirionedd. Os mai'r bwriad yw rhoi'r gorau i gyhoeddi'r llyfryn sy'n dangos y wybodaeth hon, dylid sicrhau bod y neges hon yn cael ei chyfleu ar y cynhyrchion ar y we.

Bydd angen adolygu'r dangosyddion yng ngoleuni Bil Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Nodau arfaethedig. Bydd datblygu dangosyddion fel mesurau cynnydd ar gyfer y Bil yn allweddol i ddatblygu dangosyddion Datblygu Cynaliadwy terfynol Cymru.

Bydd hefyd yn bwysig gallu dangos tueddiadau o ran o ble mae Cymru wedi dod yn ogystal ag ystyried y tueddiadau hynny ochr yn ochr â rhagolygon ar gyfer y dyfodol (senarios ar gyfer y dyfodol) neu eu defnyddio i lywio rhagolygon o'r fath.

Bydd angen sicrhau bod Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yn parhau'n gymaradwy yn y DU, ac â dangosyddion yr UE a dangosyddion Datblygu Cynaliadwy ledled y byd neu ni all Cymru ddeall pa gynnydd y mae'n ei wneud o ran Datblygu Cynaliadwy.

Wrth ddatblygu prosesau Adrodd ar Gyflwr Adnoddau Naturiol rydym yn disgwyl gwneud mwy o ddefnydd o Ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy. Mae'r gwaith hwn yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd. Mae'n bosibl na fydd dangosyddion Datblygu Cynaliadwy o'r fath yn rhan o'r adroddiad ond byddant yn bwysig i roi cyd-destun.

Mae gan Staff Gweithredol fwy o ddiddordeb yn y wybodaeth ar lefel leol ac mewn gallu gweld y data craidd a ddefnyddir i greu'r dangosydd.

Cwestiwn 7- Os bydd angen i ni wneud hynny, a allwn ni gysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb i'r holiadur hwn?

Gallwch

Na

Diolch am gymryd rhan - mae eich adborth yn werthfawr i ni.